

Darlleniad/Reading: Eiseia/Isaiah 55: 1-13

Gweddi / Prayer:

Arglwydd ein Duw, deuw'n o'th flaen mewn ffydd ac ymddiriedaeth – gan weddio drosom ein hunain, dros ein gilydd a thros ein byd. Cyflwynwn ein pryderon a'n dyheadau ger dy fron, gan osod y cyfan i'th ofal a'th arweiniad.

Lord God, we come before you in faith and trust – praying for ourselves, for one another and for our world. We bring our concerns and our aspirations before you now, placing everything into your hands. Arglwydd y cyfan, clyw ein gweddi yn nawr, yn enw Crist. Amen

Myfyrdod / Meditation:

“O deuwch i'r dyfroedd, bob un y mae syched arno, ie, yr hwn nid oes arian ganddo; deuwch, prynwch, a bwytwch; ie, deuwch, prynwch win a llaeth, heb arian, ac heb werth / Everyone who thirsts, come to the waters, and he who has no money, come, buy and eat! Come, buy wine and milk without money and without price.” *Isaiah, 55:1*

Mae rhywbeth gennyf i werthu i chi heddiw! Ac fel arfer, pan fo rhywun â rhywbeth i werthu, mae'n nhw'n dangos y peth dan sylw yn gyntaf, yn disgrifio ei nodweddion arbennig, sôn am ragoriaethau y peth hwnnw – oherwydd nes bod rhywun wedi deall yn iawn beth sy'n cael ei gynnig, mwy na thebyg, dydyn nhw ddim yn barod i'w brynu!

So that's my first job today – to try and sell you something. And the person who has anything to sell, usually tries to bring those who are buying “up” to the price they want. But my second business today is to bring you down to the price – “Come buy wine and milk without money and without price.”

Felly, dau ben yn unig eich cyfer chi / only two headings today:

Firstly, to ask what's for sale? And secondly, to try and bring you “down”, not “up” to the desired price.

1. Felly'n gyntaf, beth sydd ar werth? – “Gwin a llaeth” / “Wine and Milk” – that's what's on offer!

A dyma'n syml, disgrifiad o'r Efengyl. A descriptive metaphor for the Gospel.

Mae gwin, (os ych chi'n hoff o win neu beidio), ond mae gwin yn draddodiadol yn cael ei gysylltu gyda dathlu ac achlysuron arbennig, ond yw e? Ac yn enwedig Champagne! Ac yna, llaeth - y peth elfennol, greiddiol, sy'n cynnwys popeth am wn i, sy'n angenrheidiol i feithrin babi, a chynnal bywyd newydd yn y byd hwn.

So, there we have it – the gospel like wine and milk. There's everything in the gospel for the needs of everyone. Celebration and joy – it's in the gospel. Sucre and nurture, strength for work and duty – it's in the gospel.

Mae gwybodaeth i'r pen, serch i'r galon, llewyrch i'n llwybrau, arweiniad a chynhaliadaeth. Mae gwin a llaeth yn efengyl Iesu Grist i bawb sy'n ei geisio.

I feel that there's another meaning in the two words “milk and wine” Wine is something that requires time and effort to produce. There's a vintage and fermentation process before any wine can

come to its full flavour. And isn't the gospel like that? Needing time to develop and ferment until we see its true and full effect.

Ond llaeth ar y llaw arall – peth cyffredin iawn yw llaeth. Milk is available every day, almost anywhere. There's no real preparation needed (although we pasteurise and purify it, it can be drunk in a natural state.)

Ac mae'r un peth yn wir am yr efengyl – rhywbeth ar gyfer bob dydd o'r wythnos, nid yn unig y Sul ac achlysuron arbennig fel y gwin gorau, ond ar gyfer y geithle a'n bywyd beunyddiol. Rhywbeth sydd gyda ni yn wastadol, wrth law o hyd i flas arno'n barhaus.

And the wonderful thing for us today is the fact that all of this is free – free in this respect – that we don't have to pay anything in order to receive it.

Mae'r efengyl mor rhad a'r awyr iach ni'n anadlu! Does dim rhaid i ni dalu am anadlu (dim eto beth bynnag!) Does dim rhaid i ni dalu i weld codiad haul neu fachlud haul. Yn yr un modd, mae'r efengyl yn rhad ac am ddim – dim ond i ni ddod yn waglaw gan gyffesu ein gwendidau a'n pechodau, a chan ofyn am faddeuant.

We don't need to bring anything with us in order to obtain it. There's a free and full pardon for the greatest of sinners. Free and full, because when Christ does anything, you can be assured of one thing - he never does it by halves!

'Dyw e ddim yn maddau ambell un o'n ffaeledau, neu ambell elfen o'n byw afradlon – ond y cyfan oll:

"Mi glywaf dyner lais yn galw arnaf fi
i ddod a golchi 'meiau i gyd
Yn anfon Calfari."

And not only full and free, but it's a pardon that lasts forever!

Mae 'na wahaniaeth yn y gyfraith rhwng "reprieve" a "pardon" ond oes? Dyw "reprieve" ddim yn bardwn llawn, mae modd cael eich erlid unwaith eto am drosedd os ych chi wedi cael "reprieve" yn unig. Ond nid yw Duw byth yn rhoi *reprieve* yn unig. Mae'n faddau hyd yr eithaf!

And this is the wine and milk which is offered to us all, without money and without price – the only thing required is faith and belief in Jesus.

2. So, having considered what is for sale, the next task is to try and sell it, but the great difficulty is to bring us "down" to the price.

Dyma efengyl sy'n cael ei phregethu heb arian ac heb werth, a nes ein bod yn barod i ddod yn hollol waglaw, does dim modd yn y byd i ni obeithio ei chael.

'Falle bod rhai ohonom yn barod i gyfaddef ein bod yn cyfrannu'n gyson yn ariannol at yr achos, yn ffyddlon yn ein defosiwn cyhoeddus a phreifat, yn ymddiddori ym mhopeth yn ymwneud â'r capel. Popeth yn iawn – rhinweddau clodwiw a chanmoliaethus iawn. Ond mae'r hyn sy'n cael ei gynnig yma, "heb arian ac heb werth".

As long as we think that our good works can buy salvation, we'll never attain it! Not that there's anything wrong in good works of course - they're fine in their place. Practice good works by all

means, that's to be encouraged, but as far as the matter of salvation is concerned – we have to leave everything “outside the door” as it were, and come as poor, guilty individuals, “Without money and without price”.

Hynny yw, 'dyw gweithredoedd da yn eu hunain ddim yn sylfaen – mae'n rhaid i ni adeiladu ar ddim byd llai na Iesu Grist ei hun – ac wedi adeiladu ar y sylfaen gadarn honno, mae modd i ni ddod â chymaint o weithredoedd da â phosib – gorau 'gyd po fwyaf wedi hynny!

And this is the important point to remember – Christ will never *sell* salvation for a price – because there is nothing that can be offered to equal its value!

Yr hyn a brynodd Grist trwy ei waed – does dim modd ei brynu gan aur ac arian. Does dim pris sy'n gyfwerth â hwnnw. Mae cyfoeth yn gallu gwahaniaethu pobl ar y ddaear, ond does dim gwahaniaeth o flaen Croes Crist – dyna'r “great leveller” os buodd un erioed:

“Nothing in my hands I bring, simply to thy cross I cling.”

If we try to bring anything materialistic to Christ, it's a futile action – he doesn't need any of our “money and price”. And what's more, if he sees anything in our hands, he'll turn us away until we can say again: “Nothing in my hands I bring, simply to thy cross I cling.”

Dyma un o brif wendidau dynolryw am wn i – yw'r dymuniad a'r dyhead yma i ddod â rhywbeth i Grist.

Perhaps some may think, “I'd like to come to Christ, but I'm not good enough” – isn't that selfishness creeping to the surface? Thinking about ourselves again!

Mae'r ffaith ein bod ni'n bechaduriaid mawr yn ddim byd i wneud â hynny. Mae Crist yn achubwr mawr! Beth bynnag yw'n ffaeiddau, ein gwendidau a'n amheuron, mae trugaredd Duw a chariad Crist yn drech na'r rheiny 'gyd. Mae Ef yn ein gwahodd ni yn syml fel pechaduriaid, fel ag yr yn ni “heb arian ac heb werth”.

If we will only come “down” to this price, and accept Christ at his word, “without money and without price”. Empty ourselves of “self” and fill ourselves with Christ.

“O dewch a phrynwch win a llaeth” meddai Richard Jones, Llanfrothen yn ei emyn:

Wel dyma luniaeth nefol;
Prynwch heb arian a heb werth,
Mae ynddynt nerth tragwyddol.

Mae'r wledd yn barod, O bwytewch
A llawenhewch yn Seion;
Tragwyddol hedd i blant y llwch,
O profwch ei bendithion.”

Ydych chi am brofi o'i fendithion? Mae'r gwahoddiad yno heddiw, fel pob dydd arall: “O deuwch i'r dyfroedd, ie, deuwch, prynwch win a llaeth, heb arian, ac heb werth.”

Er gogoniant i'w Enw. Amen.